Polisi Ynni Adnewyddadwy
Cymdeithas Ganŵa Cymru

Cyflwyniad

Mae nifer o adnoddau dŵr Cymru o ddiddordeb i wahanol fathau o chwaraeon padlo. Mae ansawdd yr afonydd, y llynnoedd a'r ardaloedd arfordirol yn dod dan bwysau o ganlyniad i wahanol fathau o ddatblygiad. Mae Cymdeithas Ganŵa Cymru (WCA) yn poeni y bydd ein hardaloedd dyfrol a'u hamgylchoedd, a'u gwerth fel mannau amwynder, yn dioddef o ganlyniad i ddatblygiadau anystyriol sydd wedi'u cynllunio'n wael.

Tra bod yna nifer o wahanol fathau o ddatblygiad a all effeithio ar yr adnodd dŵr, y maes a ganolbwyntir arno yn y datganiad hwn yw datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Mae'r datganiad yn lleisio ein pryderon ynghylch gwerth mynediad, amwynder gweledol a'r amgylchedd ehangach i'r rhai sy'n canŵio a defnyddwyr dŵr eraill, ac i esbonio i ddatblygwyr, cynllunwyr, asiantaethau'r llywodraeth, cynghorwyr a gwleidyddion beth yw barn y WCA, a pa fath o safleoedd yr hoffem eu gweld yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad.

Cyd-destun y Polisi

Mae'r WCA'n cydnabod y problemau byd-eang sy'n gysylltiedig ag allyriadau carbon a'r newid yn yr hinsawdd, ac yn derbyn bod angen newid ein ffynonellau ynni a'n hagweddau cymdeithasol tuag at ddefnyddio ynni.
Mae'n amlwg bod ynni adnewyddadwy'n darparu ffordd amgen a chynaliadwy o gynhyrchu ynni. Fodd bynnag, wrth ystyried cyflwyno cynlluniau newydd dylid bob amser edrych yn gyntaf ar agweddau llac y cyhoedd tuag at ddefnyddio ynni, offer aneffeithlon ac adeiladau sydd heb eu hinsiwleiddio'n iawn. Rydym yn credu nad yw hi'n briodol inni altro'n treftadaeth naturiol er mwyn archwilio ffynonellau ynni newydd sydd yna'n cael eu gwastraffu.

Mae'r WCA'n ymwybodol bod cyfranogwyr weithiau'n gorfod teithio'n bell i fwynhau'r gweithgaredd sy'n mynd â'u bryd a bydd yn cefnogi unrhyw fentrau sy'n caniatáu i bobl fwynhau canŵio tra'n cefnogi'r 9% o ostyngiad mewn allyriadau CO2 sy'n ofynnol ar draws y byd o 2012.

Polisi'r WCA

Mae'r WCA am gymryd rhan yn y ddadl ynghylch dyfodol polisi ynni'r genedl er mwyn chwarae rôl ragweithiol gyda golwg ar bennu'r effaith ar ddŵr a ddefnyddir gan bobl i ganŵio yn eu hamser hamdden. Rydym yn credu yn yr egwyddor o fynd ati i ymgynghori'n gynnar er mwyn canfod unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arfaethedig yn gynnar yn y broses er mwyn osgoi gwrthdaro hir rhwng datblygwyr a gwrthwynebwyr cynllun arfaethedig, yn ogystal â gwella canfyddiad y cyhoedd o ynni adnewyddadwy.

Hoffai'r WCA weld ynni adnewyddadwy'n cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i werth treftadaeth naturiol profiadau cefn gwlad o fewn yr ecosystemau sydd uwchlaw ac islaw'r dŵr.

Rydym am weithio gyda datblygwyr, asiantaethau, ymgynghorwyr ac awdurdodau cynllunio er mwyn canfod unrhyw wrthdaro posib rhwng canŵio, ar ei holl ffurfiau, â phrosiectau ynni adnewyddadwy arfaethedig. Pan fydd yna ddatblygiadau yn yr arfaeth hoffem weithio gyda'r datblygwr er mwyn gwneud sylwadau ar ddiogelwch y nentydd sy'n llifo mewn ac allan o'r afon, trafod dyddiau cau lawr er mwyn caniatáu padlo ar yr afon ac, yn y rhan fwyaf o achosion, wneud cais am arf ar-lein ar gyfer mesur lefel yr afon.

Mae'r WCA am weithio gyda datblygwyr a chwmnïau ynni i sicrhau gwell mynediad dros y tir i gyfleusterau sy'n hwyluso canŵio, megis llwybrau o amgylch argaeau a meysydd parcio'n agos at fynedfeydd ac allanfeydd ar hyd afonydd rheoledig.
Rydym yn credu y dylai gwybodaeth ynghylch gollwng dŵr o'r gorsafoedd pŵer hydro presennol fod ar gael yn fwy eang er mwyn gallu gwneud gwell defnydd hamdden o'r dŵr.
Mae'r WCA'n cydnabod y gallai newid lefelau dŵr mewndirol mewn ffordd artiffisial trwy droi cynlluniau hydro ymlaen ac i ffwrdd arwain at ddamweiniau neu olygu bod y digwyddiadau presennol yn troi'n ddamweiniau. Rydym yn bendant iawn o blaid darparu gwybodaeth ynghylch gollwng dŵr er mwyn lleihau'r peryglon hyn.

Mae'r WCA am amddiffyn golygfeydd ein harfordiroedd. Byddai'n well gennym weld melinau gwynt alltraeth yn cael eu lleoli ymhell allan i'r môr a gorsafoedd sy'n defnyddio pŵer y llanw a'r tonnau un ai allan ar y môr neu ar hyd arfordiroedd sydd eisoes wedi'u datblygu. Rydym yn cydnabod y gallai rhai datblygiadau gael effaith ar y broses o fordwyo.

Bydd y WCA'n gwrthwynebu cynigion datblygu pan fyddwn o'r farn bod y cwrs dŵr neu'r ardal arfordirol sydd dan fygythiad o werth cenedlaethol neu ryngwladol i'n camp.

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr 6/10/08
Swyddog cyswllt: Ashley Charlwood (01341) 422692 Cwmbychan@aol.com